Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21

Mehefin 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd: **www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21

Mehefin 2020

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Alun Davies AS**
LLafur Cymru



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Nick Ramsay AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Reckless AS**
Plaid Brexit

---

# Cynnwys

**Argymhellion** .......... **5**

**1. Trosolwg** .......... **8**

**2. Ariannu** .......... **11**

**3. Blaenoriaethu** .......... **16**

**4. Pwerau ariannol a chronfeydd wrth gefn** .......... **20**

**5. Dyraniadau** .......... **23**

**6. Argyfwng hinsawdd** .......... **31**

**7. Cyfnod pontio'r UE** .......... **33**

**8. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol** .......... **34**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro ac archwilio a yw cyllid canlyniadol a geir drwy fformiwla Barnett yn adlewyrchu anghenion Cymru, yn enwedig yn sgil COVID-19. ........................... Tudalen 14

**Argymhelliad 2.** Os na fydd cyllid canlyniadol yn adlewyrchu anghenion Cymru yn ddigonol yn sgil COVID-19, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau gyda Llywodraeth y DU opsiynau ariannu eraill ar frys. .......... Tudalen 15

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Llywodraeth y DU yn rhoi cymaint o wybodaeth mor brydlon â phosibl, am unrhyw gyhoeddiad gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru, ei thrigolion a/neu'r busnesau sy'n gweithredu yma. ........................................................................ Tudalen 15

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi am rôl y Cwnsler Cyffredinol a sut y mae gwaith y Cwnsler Cyffredinol ar adferiad COVID-19 yn cyd-fynd â gwaith cynllunio'r Gweinidog ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon a 2021-22. ........................................................................ Tudalen 19

**Argymhelliad 5.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu manylion y trafodaethau a gynhaliwyd â sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n wynebu gostyngiadau sylweddol mewn incwm eleni, ac mae'n argymell bod y Pwyllgor yn cael manylion am sut y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r sefydliadau hyn i liniaru effaith y gostyngiadau. ........................................................................ Tudalen 19

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn y Gweinidog bod angen hyblygrwydd o ran cynyddu y terfynau blynyddol sy'n ymwneud â benthyca a chronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Thrysorlys EM ynghylch hyblygrwydd wrth fenthyca a chronfeydd wrth gefn. ........................................................................ Tudalen 21

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi am drafodaethau Llywodraeth Cymru â Thrysorlys EM ynghylch y gallu i newid cyfalaf i refeniw pan fydd y trafodaethau wedi gorffen. ...................... Tudalen 22

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r sail i gyllid gael ei ailddyrannu o brosiectau cyfalaf i refeniw fod yn glir, ac y dylai gynnwys yr asesiadau effaith perthnasol. ........................................................................ Tudalen 22

**Argymhelliad 9.** Wrth roi gwybodaeth am y prosiectau sydd wedi'u gohirio er mwyn newid cyfalaf i refeniw, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am y ffrydiau gwaith a gwerth y cyllid sy'n cael ei ryddhau. ..................... Tudalen 22

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am y costau ychwanegol gwirioneddol a rhagamcanol ar gyfer byrddau iechyd lleol o ganlyniad i fesurau COVID-19 a'r dyraniadau i'w gwneud iddynt o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyllid a adlewyrchir yn y Gyllideb Atodol. ..................... Tudalen 30

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ar ôl i'r amcangyfrifon gael eu llunio, yn rhoi gwybodaeth am gostau datgomisiynu'r holl ysbytai maes. ..................... Tudalen 30

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi gwybodaeth ychwanegol am y cymorth i Strategaeth 'Profi Olrhain Diogelu' Llywodraeth Cymru ac yn argymell y rhoddir gwybodaeth ychwanegol o ran y strategaeth. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr hyn y bydd y cyllid yn ei gyflawni a'r dangosyddion perfformiad allweddol y bydd effeithiolrwydd gwariant cysylltiedig yn cael ei fesur yn eu herbyn, o ran y cyfalaf i sefydlu'r rhaglen a'i chostau cynnal dros y misoedd nesaf. ..................... Tudalen 30

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflymu gwaith i gefnogi economïau lleol. Bydd newidiadau mewn arferion manwerthu yn effeithio ar ganol trefi yn y tymor hwy, ac mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei ailffocysu o ystyried yr amgylchiadau presennol. ..................... Tudalen 30

**Argymhelliad 14.** Pan fydd trafodaethau â llywodraeth leol a Thrysorlys EM wedi dod i ben, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi dadansoddiad llawn i'r Pwyllgor o'r cyllid ychwanegol ar gyfer llifogydd a sut y mae'n bwriadu dyrannu'r cyllid hwnnw. ..................... Tudalen 30

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut y mae cyllid yn cael ei ailflaenoriaethu i ganolbwyntio ar adferiad gwyrdd o COVID-19. ..................... Tudalen 32

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth am faint o arian ychwanegol a gaiff ei roi a sut y bydd yn cael ei ddyrannu i gefnogi awdurdodau lleol wrth ymgorffori newidiadau trafnidiaeth cadarnhaol. ..................... Tudalen 32

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn fwy penodol o ran senarios cynllunio sy'n cael eu hystyried ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r UE a'r cyllid cysylltiedig sydd ei angen. .......... Tudalen 33

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad i'r cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. .......... Tudalen 35

# 1. Trosolwg

**1.** Gosododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (y Gweinidog) Gyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 ar 27 Mai 2020 (diweddarwyd ar 28 Mai 2020). Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog ar 4 Mehefin 2020.

**2.** Mae'r Gyllideb Atodol yn dyrannu £2.46 biliwn mewn cyllid ychwanegol i adrannau, gan gynyddu gwariant Llywodraeth Cymru o £19.9 biliwn yng Nghyllideb Derfynol 2020-21 i £22.0 biliwn, cynnydd 10.7 y cant. Mae'n nodi dyraniadau o gronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng portffolios Llywodraeth Cymru, trosglwyddiadau gydag Adrannau Llywodraeth y DU, ac yn cynnwys rhagolygon Gwariant a Reolir yn Flynyddol diwygiedig. Mae hefyd yn cynnwys diwygiadau i ragolygon trethi datganoledig, Addasiadau i'r Grant Bloc, arian a dynnwyd o Gronfa Wrth Gefn Cymru, a benthyciadau arfaethedig o'r Gronfa Benthyciadau Gwladol.

**3.** Mae'r graffig a ganlyn yn dangos dyraniadau i adrannau yn dilyn y Gyllideb Atodol hon.

**4.** Wrth gyflwyno'r Gyllideb Atodol hon, nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad cyflym i ymdrin ag effaith uniongyrchol pandemig COVID-19, yn enwedig o ran darparu cymorth i'n gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn barod i ymateb i niweidiau uniongyrchol ac anuniongyrchol argyfwng y coronafeirws[1]. Esboniodd y Gweinidog y canlynol:

> "I met with every Minister and Deputy Minister to interrogate their budgets, asking questions about what within their budget really is a legal commitment that we have to stick to, or statutory commitment; what in their budget is something that is really life-and-limb kind of stuff; and then also what within their budget is an absolute top Government priority. And beyond that, then, we explored what could be released to support the COVID-19 reserve."[2]

[1] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 9
[2] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 8

# Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21

Prif ffigurau'r Gyllideb Atodol Gyntaf (CAG), yn dangos symudiad arian o Gyllideb Derfynol (CD) 2019-20

**DEL: Refeniw**
£17,832m
+£2,457m
+16.0%

\+

**DEL: Cyfalaf**
£2,329m
Dim newid

\+

**AME**
£1,824m
-£332m
-15.4%

=

**TME**
£21,985m
+£2,125m
+10.7%

**Uchafswm Gwariant Adrannol (DEL)**
Cyfanswm = £20,161m
+£2,457m
+13.9%

**AME**: Gwariant a Reolir yn Flynyddol
**TME**: Cyfanswm y Gwariant a Reolir
**CAG**: Cyllideb Atodol Gyntaf
**CD**: Cyllideb Derfynol

**DEL** yw'r rhan o'r gyllideb y gall Llywodraeth Cymru ddewis sut i'w gwario yn ôl ei disgresiwn ei hun.
**AME** yw'r rhan o'r gyllideb na all Llywodraeth Cymru ei gwario yn ôl ei disgresiwn ei hun.

| | Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf* | Newid o CD i CAG |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £9,222m | +£481m 5.5% ▲ |
| Tai a Llywodraeth Leol* | £5,233m | +£527m 11.2% ▲ |
| Economi a Thrafnidiaeth | £2,789m | +£1266m 83.1% ▲ |
| Addysg | £1,738m | -£47m -2.6% ▼ |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | £570m | +£222m 63.9% ▲ |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddiaeth | £407m | +£23m 5.9% ▲ |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | £202m | -£15m -7.1% ▼ |

*Ddim yn cynnwys cyfraddau incwm annomestig £1bn

**5.** Nododd y Gweinidog dair blaenoriaeth wrth ymateb i argyfwng COVID-19:

1. Cefnogi gwasanaethau cyhoeddus;
2. Helpu'r bobl fwyaf difreintiedig mewn cymdeithas;
3. Gwarchod hyfywedd yr economi[3]

**6.** Cydnabu'r Gweinidog y gwneir penderfyniadau'n ddi-oed, ond cynigiodd sicrwydd bod mesurau diogelu hanfodol yn cael eu cynnal drwy gyfarfodydd dyddiol i edrych ar gynlluniau a chynnig haen ychwanegol o gadernid.[4]

[3] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraffau 9-11
[4] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 13

# 2. Ariannu

**7.** Yn y Nodyn Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Atodol hon, nodir bod adnodd cyllidol Llywodraeth Cymru wedi cynyddu £2.3 biliwn. Daw'r mwyafrif o'r cynnydd hwn (£1.9 biliwn) o gyllid canlyniadol sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau polisi a wnaeth Llywodraeth y DU i ymateb i COVID-19.

**8.** Yn ogystal, mae £122.8 miliwn o gyllid canlyniadol nad yw'n gysylltiedig â COVID-19 o gyllideb mis Mawrth 2020 y DU, ynghyd â gwerth £19.2 miliwn o addasiadau a wnaeth Trysorlys EM mewn perthynas â chyllid canlyniadol o 2019-20 (a ohiriwyd tan 2020-21) a £4.6 miliwn o ganlyniad i hawliadau Adrannau eraill Llywodraeth y DU ar gronfeydd wrth gefn.

**9.** Mae ffynonellau eraill y cynnydd yn y cyllid yn cynnwys y canlynol:

- £231.1 miliwn gan Drysorlys EM mewn perthynas â chyllid taliadau uniongyrchol ar gyfer cymorthdaliadau ffermydd
- £29.5 miliwn gan Drysorlys EM o ganlyniad i ailgyfrifo a gostyngiad yn yr addasiad i'r grant bloc
- £19.2 miliwn gan y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo
- £391,000 gan Drysorlys EM mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol

**10.** Yn ogystal, mae trosglwyddiad £100,000 am allan mewn perthynas â chyllido'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer gwaith ar ragolygon trethi datganoledig. Er y gwnaed newidiadau i refeniw trethi datganoledig, yn dilyn rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a gyhoeddwyd ar adeg Cyllideb y DU, bu gostyngiad net £27 miliwn.

**11.** Yn ôl y Nodyn Esboniadol, mae £256 miliwn wedi'i nodi a'i ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn o ganlyniad i ymarfer i ailddyrannu ac addasu cyllidebau presennol at ddibenion gwahanol i ymateb i'r argyfwng. Yn ogystal, ac yn dilyn cynigion gan y Comisiwn Ewropeaidd i ddarparu hyblygrwydd wrth gymhwyso Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y dybiaeth y gallai hyd at £245 miliwn gael ei ryddhau o gyllid yr UE a'i addasu at ddibenion gwahanol.

**12.** Mae cyfalaf cyffredinol wedi cynyddu £145.5 miliwn, gan gynnwys gostyngiad £100 miliwn o ganlyniad i addasiadau a wnaeth Trysorlys EM mewn perthynas â

newidiadau canlyniadol yn 2019-20, a ohiriwyd tan 2020-21. Mae'r cyllid canlyniadol sy'n dod i £245.5 miliwn yn cynnwys:

- £218.4 miliwn o ganlyniad i Gyllideb y DU (Mawrth 2020)
- Cafwyd £27.1 miliwn yn y Prif Amcangyfrifon

**13.** Mae Cyfalaf Trafodion Ariannol wedi cynyddu £3.7 miliwn oherwydd cyllid canlyniadol o gyllideb mis Mawrth 2020 Llywodraeth y DU.

**14.** Mae'r gyllideb Ardrethi Annomestig wedi'i gostwng £332 miliwn i wrthbwyso'r cyllid Terfynau Gwariant Adrannol (DEL) ychwanegol, sef £332 miliwn, a ddarperir i'r Prif Grŵp Gwariant (MEG). Yn y Nodyn Esboniadol, nodir y gwnaed y dyraniad hwn "mewn ymateb i'r gostyngiad disgwyliedig mewn refeniw ardrethi annomestig i lywodraeth leol o ganlyniad i COVID-19".[5]

**15.** Ar 21 Mai 2020, trafododd y Gweinidog â'r Pwyllgor pa mor dda roedd Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu â Llywodraeth y DU (a gweinyddiaethau datganoledig eraill). Esboniodd y Gweinidog y canlynol:

> "…throughout the crisis, Welsh Government officials have been in very close contact with the UK Government, sometimes on an hourly basis, but certainly on a daily basis since the beginning of the crisis, and that's been a really, really useful mechanism for sharing information and, on occasion, getting advance notice of announcements that the UK Government intends to make."[6]

**16.** Fodd bynnag, aeth y Gweinidog ymlaen i esbonio'r canlynol:

> "I think it's fair to say that we don't always get advance notice of those allocations that the UK Government intends to make and any subsequent consequential funding that might flow to Wales as a result of that…"[7]

**17.** Yn y sesiwn honno, trafododd y Gweinidog hefyd pa mor dda roedd y dulliau ar gyfer cyllido'n gweithio yn ystod yr argyfwng, yn enwedig fformiwla Barnett. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> "I think that it's important to recognise that there are particular challenges in different parts of the UK, so in terms of population, we have some specific vulnerabilities relating to the fact that we have a

[5] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2020-21, Nodyn Esboniadol, Mai 2020
[6] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 6
[7] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 6

> relatively larger share of older people in the population, and, of course, we have a relatively larger share of poor health and poverty. But on the other hand, population density is generally lower in Wales, we have fewer larger cities and we have lower levels of use of public transport. All of those things, in one way or another, have been linked to the coronavirus outbreak, so how those will transpire and balance out remains to be seen, I think."[8]

**18.** Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod gan economi Cymru wendidau penodol o ran twristiaeth ond bod y sector wedi elwa ar gymorth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.[9]

**19.** Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys y byddai'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn cael ei ohirio o fis Gorffennaf er mwyn galluogi Llywodraeth y DU i barhau i ganolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus a'r argyfwng economaidd[10]. Nododd y Gweinidog nad oedd dim sicrwydd ynghylch amseriad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, ond ei bod yn gobeithio y byddai'n cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni.[11]

**20.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a allai gwyriad ar draws y DU wrth i'r cyfyngiadau symud ddod i ben arwain at broblemau gyda diffyg cyllid canlyniadol i gefnogi Llywodraeth Cymru, esboniodd y Gweinidog y canlynol:

> "I think we're still very much at an early stage in the pandemic and how the situation in Wales differs from that across the border, I think will obviously be seen in due course. But, you know, we've had a more cautious approach to moving from lockdown as compared to England. We're asking ourselves what that means for us in Wales in terms of the economic impact, but, equally, what does a faster move out of lockdown in England mean from a public health perspective? So, you get economic costs; you also have health and public health costs, which inevitably have a knock-on effect on NHS funding as well. So, I think that there are so many different sides to this."[12]

**21.** Ymhelaethodd y Gweinidog ar y trefniadau pe bai cynnydd arall mewn achosion COVID-19:

[8] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 31
[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 32
[10] Llywodraeth y DU, Sylwadau Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2020: canllawiau (Saesneg yn unig)
[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 142
[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 145

> "…we don't yet know what path the pandemic might take, which is why it's so important that we're able to respond in an agile way and have those flexibilities from the UK Government. Because we want to make the most of the resources that we have rather than relying on consequential funding that may or may not come. So, we need several things, really; we need all those flexibilities that I've talked about before, but also a more open discussion, I think, with colleagues in the UK Government about their planned spending, so that we can factor that into our plans, as well. But, I think, inevitably there will need to be additional funding for health, for things such as the test, trace, protect scheme, even if there's not a second or third peak."[13]

## Safbwynt y Pwyllgor

**22.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y gall nodweddion y boblogaeth yng Nghymru, megis y gyfran uwch sy'n oedrannus a nifer y swyddi yn y gwasanaethau twristiaeth a lletygarwch olygu bod effaith COVID-19 yn fwy yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU. Er nad yw union effeithiau'r nodweddion poblogaeth hyn yn hysbys, mae'r Pwyllgor yn nodi y gall hyn gynyddu costau wrth ymdrin â'r pandemig yng Nghymru.

**23.** Mae'n galonogol i'r Pwyllgor glywed bod y Gweinidog yn teimlo bod cyfathrebu rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn dda, ond mae hefyd yn nodi nad yw hyn, o reidrwydd, yn wir yn gyson ac mae'n siomedig nad yw hyn yn wir rhwng Gweinidogion. Cred y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cael gwybod am gyhoeddiadau allweddol sy'n effeithio ar bobl a busnesau Cymru, megis newidiadau i'r Cynllun Cadw Swyddi, mewn modd amserol sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynllunio polisïau cydategol yn fwy effeithlon ac effeithiol.

**24.** Mae gan y Pwyllgor bryderon bod ymateb COVID-19 wedi tynnu sylw at broblemau systemig lle y mae'n ymddangos bod gwaith cydgysylltu brys rhyng-lywodraethol yn aneffeithlon neu'n annigonol, yn enwedig o ran cyfathrebu ac ariannu. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu trafod hyn ymhellach â'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn ymchwiliad y Pwyllgor sydd ar ddod yn edrych ar weithrediad y fframwaith cyllidol.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro ac archwilio a yw cyllid canlyniadol a geir drwy fformiwla Barnett yn adlewyrchu anghenion Cymru, yn enwedig yn sgil COVID-19.

[13] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 100

**Argymhelliad 2.** Os na fydd cyllid canlyniadol yn adlewyrchu anghenion Cymru yn ddigonol yn sgil COVID-19, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau gyda Llywodraeth y DU opsiynau ariannu eraill ar frys.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Llywodraeth y DU yn rhoi cymaint o wybodaeth mor brydlon â phosibl, am unrhyw gyhoeddiad gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru, ei thrigolion a/neu'r busnesau sy'n gweithredu yma.

# 3. Blaenoriaethu

## Addasu cyllidebau at ddibenion gwahanol

**25.** Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi bod Gweinidogion wedi cymryd camau i ailddyrannu cyllid neu ei addasu yn eu cyllidebau presennol at ddibenion gwahanol i ymateb i bandemig COVID-19. O ganlyniad i hynny, dychwelwyd £256 miliwn i'r gronfa ganolog.

**26.** Yn y Nodyn Esboniadol, pwysleisir bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio nodi lle na ellir defnyddio cyllid at y dibenion a fwriadwyd ac y gellid ei ohirio hyd at ddyddiad diweddarach. Mae hyn yn cynnwys:

- £114 miliwn mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
- £50 miliwn mewn Economi a Thrafnidiaeth,
- £46.6 miliwn mewn Addysg,
- £24 miliwn o'r Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
- £15.4 miliwn o Gysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg,
- £5 miliwn mewn Tai a Llywodraeth Leol,
- £1.4 miliwn o Wasanaethau Canolog a Gweinyddiaeth.

**27.** Hefyd, mae mwy na £110 miliwn wedi'i ailflaenoriaethu mewn Prif Grwpiau Gwariant.

## Gostyngiad mewn cyllid

**28.** Trafododd y Gweinidog ostyngiadau mewn cyllid i rai cyrff, yn benodol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Esboniodd y Gweinidog y canlynol:

> "HEFCW and NRW do face significant challenges, but you'll see in the supplementary budget that those particular areas where they were cut were cut due to specific streams of work not being able to be taken forward."[14]

[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 28

**29.** Yn benodol, gan gyfeirio at CNC, ychwanegodd swyddog y Gweinidog y canlynol:

> "… our understanding is that the reduction is a reflection of the impact on programme delivery because of the restrictions, and the requirements around working from home. So, it's not a reduction to activity that could be undertaken at this point in time. And so programmes such as the flood protection programmes are being protected within that envelope."[15]

**30.** Aeth y Pwyllgor ymlaen i drafod yr effaith y gallai colli incwm ei chael ar gyrff fel CNC wrth gyfuno hynny â gostyngiadau mewn cyllid. Er y nododd y Gweinidog fod colli incwm wedi'i drafod ar gyfer sectorau eraill, dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi cael sgyrsiau eto â Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch pryderon o'r fath.[16]

## Adferiad o COVID-19

**31.** Mae'r Prif Weinidog wedi penodi'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd i arwain gwaith Llywodraeth Cymru ynghylch adferiad o bandemig COVID-19. Bydd y Cwnsler Cyffredinol:

> "… yn goruchwylio'r gwaith o fewn Llywodraeth Cymru, drwy ymateb i'r argyfwng a chael arbenigedd a phrofiad o'r tu allan i'r Llywodraeth. A hynny er mwyn sicrhau bod ein paratoadau at ddod yn ôl i drefn yn y dyfodol yn rhai creadigol a chynhwysfawr."[17]

**32.** Yn ystod sesiwn y Pwyllgor ar ymateb ariannol Llywodraeth Cymru i bandemig COVID-19 ar 21 Mai, nododd y Gweinidog ei bod yn gweithio gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'i bod o'r farn bod gwaith ynghylch adferiad o'r pandemig a chyllideb Llywodraeth Cymru yn gyfochrog. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud y canlynol:

> "…the choices and the opportunities that we will have moving out of lockdown and through to the recovery will very much depend on the financial choices that we make now. And the difficult decisions that we will have to make in terms of allocating funding in the immediate term to respond to the crisis, but then also those choices that we will need

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 31
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 33
[17] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad Ysgrifenedig: COVID-19 – Paratoi ar gyfer Adferiad, 22 Ebrill 2020

> to make—I'm thinking here of the economic resilience fund, for example—more strategically about where we invest in future and what kinds of areas we invest in."[18]

**33.** Yn y Nodyn Esboniadol, nodir bod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod yr effeithiau cadarnhaol sy'n dod i'r amlwg yn sgil y pandemig yn cael eu cadw, megis modelau newydd o ddarparu gwasanaethau ac effeithiau amgylcheddol cadarnhaol. Nodir y canlynol yn y Nodiadau Esboniadol:

> "Mae hyn yn cynnwys ffyrdd o deithio ac o weithio sy'n fwy cynaliadwy, hyblygrwydd wrth ddefnyddio TGCh mewn busnesau, gwasanaethau ac addysg, a mwy o bwyslais ar weithredu gwirfoddol a chymunedol a'r effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth ac ar ansawdd aer."[19]

**34.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn rhan o rwydwaith economi llesiant a'i bod yn gweithio gyda Seland Newydd, yr Alban, Gwlad yr Iâ a'r Ffindir. Mae'r grŵp hwn yn archwilio'r ffordd orau o gyflawni adferiad sy'n bodloni ein holl ddyheadau – adferiad gwyrdd, adferiad sy'n gymdeithasol gyfrifol.[20]

**35.** Cydnabu'r Gweinidog y byddai'r broses adfer o COVID-19 yn cael ei hystyried i'r flwyddyn ariannol nesaf ac, yn ôl pob tebyg, ymhellach na hynny[21] a chydnabu fod angen cyllid digonol i gefnogi cynlluniau adfer.

**36.** Dywedodd y Gweinidog fod dull Llywodraeth Cymru o adfer o COVID-19 yn cael ei drafod â'r Cwnsler Cyffredinol i sicrhau nad yw penderfyniadau cyllido presennol yn arwain at ddewisiadau cyfyngedig yn ddiweddarach o ran creu adferiad sy'n canolbwyntio ar sectorau penodol sydd mewn perygl penodol ac a fydd yn cael trafferth am gyfnod hwy.[22]

## Safbwynt y Pwyllgor

**37.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gorfod gwneud penderfyniadau cyflym o ran blaenoriaethau ac opsiynau i ryddhau cyllid er mwyn ymateb i'r pandemig presennol. Mae'r Gyllideb Atodol hon wedi rhoi gwybodaeth ychwanegol sy'n tynnu sylw at feysydd lle y mae cyllid wedi'i ailflaenoriaethu ac mae hyn i'w groesawu'n fawr. Yn ogystal, rhoddodd y Gweinidog fanylion i'r

---

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 10
[19] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2020-21, Nodyn Esboniadol, Mai 2020
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 94
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 43
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 41

Pwyllgor o'r sicrwydd a wneir yn Llywodraeth Cymru pan wneir penderfyniadau cyllidebol.

**38.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd nifer o gyrff cyhoeddus yn cael gostyngiadau yn yr incwm y byddant yn gallu ei godi eleni. Mae rhai sefydliadau, megis CNC, hefyd wedi cael gostyngiadau mewn cyllid yn y Gyllideb Atodol hon. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud dewisiadau anodd wrth ailflaenoriaethu cyllid. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn disgwyl y cynhelir deialog barhaus â'r sefydliadau hyn fel bod y cyllid cyffredinol sydd ar gael i sefydliadau'n llywio asesiadau ynghylch unrhyw gyllid arall a ddyrennir o gronfa wrth gefn COVID-19 neu iddi.

**39.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r manylion a gafwyd gan y Gweinidog ar ei rhyngweithiadau â phenderfyniadau Gweinidogion eraill. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi mwy o wybodaeth am sut y bydd rôl y Gweinidog yn rhyngweithio â'r Cwnsler Cyffredinol, o ran asesu effaith a goruchwylio dyraniadau cyllid ar gyfer effaith ehangach polisïau arfaethedig i lacio'r cyfyngiadau symud a chefnogi busnesau, y sector cyhoeddus ac unigolion.

**40.** Mae'r Pwyllgor yn nodi aelodaeth Llywodraeth Cymru o'r Rhwydwaith Llesiant a byddai'n croesawu mwy o wybodaeth am y rhwydwaith hwn a'i waith.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi am rôl y Cwnsler Cyffredinol a sut y mae gwaith y Cwnsler Cyffredinol ar adferiad COVID-19 yn cyd-fynd â gwaith cynllunio'r Gweinidog ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon a 2021-22.

**Argymhelliad 5.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu manylion y trafodaethau a gynhaliwyd â sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n wynebu gostyngiadau sylweddol mewn incwm eleni, ac mae'n argymell bod y Pwyllgor yn cael manylion am sut y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r sefydliadau hyn i liniaru effaith y gostyngiadau.

# 4. Pwerau ariannol a chronfeydd wrth gefn

**41.** Mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y cronfeydd wrth gefn a ganlyn:

- Adnodd cyllidol sy'n werth £148 miliwn;
- Cyfalaf cyffredinol sy'n werth £177 miliwn;
- Cyfalaf trafodion ariannol sy'n werth £50 miliwn

**42.** Roedd y Gweinidog wedi nodi, o'r blaen, fod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer ar gyfalaf, yn edrych ar yr hyn y gallwn geisio ei ailflaenoriaethu o ran cyfalaf neu geisio cyflwyno cynnig ar gyfer newid refeniw cyfalaf pe bai Llywodraeth y DU yn cytuno i hynny.[23]

**43.** Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf, esboniodd y Gweinidog fod pob adran yn ceisio dwyn cyllid ymlaen naill ai i gronfa cyfalaf wrth gefn neu newid cyfalaf i refeniw, a oedd yn dal i gael ei drafod â Thrysorlys y DU.[24]

**44.** O ystyried faint o gyllid y gellid ei newid o gyfalaf i refeniw, dywedodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynyddu benthyciadau i £150 miliwn, er nad oedd ffigur union ar y newid cyfalaf i refeniw ar gael i'w rannu.[25]

**45.** Gan ehangu ar newidiadau ariannu posibl, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> "I think there are several potential scenarios. So, one could be that projects might go ahead as planned in a budgetary sense, but actually might be reprofiled over a longer period. So, it could free up money early on, but those projects then would still continue or might continue at a different pace.
>
> But at the same time … every penny that we switch from capital to revenue is money that we're not investing in that work on infrastructure and all other kinds of capital spend, which is so important in terms of the recovery."[26]

[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 118
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 59
[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraffau 63 a 64
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraffau 69 a 70

**46.** Byddai newidiadau cyfalaf i refeniw yn cael eu hadlewyrchu'n ffurfiol yn yr ail gyllideb atodol, ond ymrwymodd y Gweinidog i roi manylion pan fydd gwybodaeth ar gael.[27]

## Safbwynt y Pwyllgor

**47.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymdrechion Llywodraethau Cymru i sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn presennol ar gael os bydd cynnydd arall mewn achosion COVID-19 y flwyddyn ariannol hon, neu os bydd anghenion yng Nghymru yn golygu bod angen ariannu cyfarwyddiadau polisi gwahanol i rannau eraill o'r DU.

**48.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ceisio pwerau i drosglwyddo cyfalaf presennol i refeniw. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried a thrafod effeithiau ehangach penderfyniadau i ganslo neu ohirio prosiectau cyfalaf yn llawn cyn gwneud penderfyniad o'r fath.

**49.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rheolau cyllidol ar gyfer llywodraethau is-genedlaethol wedi'u llacio mewn gwledydd megis yr Almaen a Sbaen mewn ymateb i COVID-19, ac mae'n cytuno bod ar Lywodraeth Cymru angen mwy o hyblygrwydd, yn enwedig mewn perthynas â llacio terfynau blynyddol Cronfa Wrth Gefn Cymru a benthyciadau cyfalaf o fewn y terfynau cyffredinol presennol.

**50.** Mae'r Pwyllgor yn nodi dadleuon Llywodraeth Cymru dros gynyddu ei therfyn benthyca cyfalaf cyffredinol, sef £1 biliwn, i gefnogi ei rhaglenni cyfalaf ymhellach eleni os bydd angen a helpu'r adferiad economaidd dros y tymor hwy.[28]

**51.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newid cyfalaf i refeniw yn y dyfodol, cyn yr ail gyllideb atodol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu manylion ffrydiau gwaith cyfalaf posibl y bwriedir eu newid i refeniw a rhyddhau gwerth y cyllid.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn y Gweinidog bod angen hyblygrwydd o ran cynyddu y terfynau blynyddol sy'n ymwneud â benthyca a chronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Thrysorlys EM ynghylch hyblygrwydd wrth fenthyca a chronfeydd wrth gefn.

[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 61
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig – Economi Cymru a Covid-19, Mai 2020

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi am drafodaethau Llywodraeth Cymru â Thrysorlys EM ynghylch y gallu i newid cyfalaf i refeniw pan fydd y trafodaethau wedi gorffen.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r sail i gyllid gael ei ailddyrannu o brosiectau cyfalaf i refeniw fod yn glir, ac y dylai gynnwys yr asesiadau effaith perthnasol.

**Argymhelliad 9.** Wrth roi gwybodaeth am y prosiectau sydd wedi'u gohirio er mwyn newid cyfalaf i refeniw, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am y ffrydiau gwaith a gwerth y cyllid sy'n cael ei ryddhau.

# 5. Dyraniadau

## Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

**52.** Yn y Nodyn Esboniadol, nodir y canlynol:

> "Ein prif flaenoriaeth fu sicrhau bod ein system gofal iechyd yn gallu ymdopi â'r straen hollol newydd sydd arni oherwydd y pandemig. Rydym wedi darparu cyllid ychwanegol i gynyddu ein capasiti arferol a rhoi'r hyn sydd ei angen arno i'r GIG."[29]

**53.** Mae'r dyraniadau ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adlewyrchu:

- Adnodd cyllidol gwerth £20.9 miliwn i BEL Dyraniadau Craidd y GIG mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo (gan adlewyrchu'r trosglwyddiad o'r Swyddfa Gartref yn fras);
- £574.2 miliwn o'r adnodd cyllidol o £2.461 biliwn mewn ymateb i COVID-19, y mae dyraniadau allweddol ohono'n cynnwys cyllid ar gyfer ysbytai maes (£166 miliwn), staffio (£91 filiwn), cyfarpar diogelu personol (£100 miliwn) ac adnoddau a nwyddau traul ychwanegol eraill y GIG (£21.3 miliwn);
- £113.9 miliwn wedi'i addasu yn y MEG at ddibenion gwahanol a'i ddychwelyd i'r gronfa ganolog, gan gynnwys £69 miliwn ar gyfer Dyraniadau Craidd y GIG a £30 miliwn ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Mae hyn yn cynrychioli dros 40 y cant o'r cyfanswm ar gyfer yr holl MEGs, sef £256.3 miliwn.

**54.** Dywedodd swyddog y Gweinidog y canlynol ar 21 Mai 2020:

> "… it's pretty clear that the health service is going to need substantial additional funding throughout the year, and that has a big implication for the whole of the Government; it's not just a health system issue."[30]

**55.** Mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys dyraniadau ychwanegol i gynyddu capasiti gofal iechyd, gan gynnwys £166 miliwn i sefydlu, adeiladu a chyfarparu'r 19 ysbyty maes yng Nghymru a £30 miliwn i ddefnyddio pob un o'r chwe ysbyty preifat yng Nghymru. Mae £91 filiwn ar gael i "gynyddu'r cyfraniad y gall myfyrwyr gofal iechyd

[29] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2020-21, Nodyn Esboniadol, Mai 2020
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 74

a'r rheini sy'n dychwelyd i wasanaeth ei wneud…i liniaru yn erbyn y niferoedd uchel o staff na fyddant yn gallu gweithio ac yn darparu cefnogaeth hollbwysig wrth i ni gynyddu ein capasiti ar draws y GIG yn gyflym".[31]

**56.** Nododd y Gweinidog, wrth bennu ei rhagdybiaethau cyllidebol, fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol iawn o'r senario achos gwaethaf.[32] Dywedodd y Gweinidog fod trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal â'r GIG i nodi pa gymorth sydd ei angen i fynd i'r afael â'r straen digynsail sy'n cael ei roi ar ei ymateb i COVID-19, a darperir cyllid ychwanegol yn y Gyllideb Atodol i gefnogi'r gwasanaeth iechyd.[33]

**57.** Rhoddodd swyddog y Gweinidog fanylion ychwanegol am y negeseuon â byrddau iechyd lleol, gan gyfeirio at heriau ailgychwyn gweithgarwch gwasanaeth iechyd arferol a chynnal capasiti os bydd cynnydd mewn achosion COVID-19 yn y dyfodol.[34] Adroddodd swyddog y Gweinidog fod staff cyllid GIG Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol o ran senarios posibl.[35]

**58.** Gan roi mwy o fanylion am y cyllid ar gyfer staff iechyd, dywedodd y Gweinidog mai'r amcanestyniadau presennol oedd y gallai gofynion staffio ychwanegol gostio £96 miliwn ar gyfer y chwe mis cyntaf (yn hytrach na'r £91 filiwn a ddyrannwyd) a'r cyllid a ddarperir ar gyfer costau sy'n ymwneud â chyflogi myfyrwyr, gweithwyr a ddychwelodd i'r GIG, gweithwyr banc ac asiantaeth a chostau goramser.[36]

**59.** Dywedodd y Gweinidog y byddai angen trafod costau staffio'r GIG y tu hwnt i'r chwe mis cychwynnol, a'r gofyniad i gynnal lefelau staffio uwch, â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.[37]

**60.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod y £91 filiwn hefyd yn cynnwys costau staffio'r ysbytai maes.[38] Adroddodd y Gweinidog fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn nodi ei fod yn credu bod angen i ni gadw'r ddarpariaeth hon (yr ysbytai maes) yn ei lle i sicrhau ei bod yno pe bai arnom ei hangen am ail neu drydydd cynnydd mewn achosion yn ddiweddarach yn y flwyddyn.[39]

[31] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2020-21, Nodyn Esboniadol, Mai 2020
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 93
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 93
[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 96
[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 96
[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 102
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 104
[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 106
[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 107

**61.** Gan gyfeirio at yr ysbytai maes, nododd y Gweinidog fod costau datgomisiynu ysbyty Stadiwm Principality wedi'u cynnwys yn y cyllid yn y gyllideb atodol gyntaf hon, ond nid yw costau datgomisiynu ysbytai maes eraill wedi'u cynnwys yn y gyllideb atodol hon ac mae swyddogion yn gweithio ar y costau cysylltiedig.[40]

**62.** Mewn perthynas â'r £57 miliwn a gynhwysir yn y Gyllideb Atodol i gefnogi Strategaeth 'Profi Olrhain Diogelu' Llywodraeth Cymru (y Strategaeth), nododd y Gweinidog fod y cyllid hwn ar gyfer caffael profion, yn ogystal ag agweddau eraill ar y Strategaeth. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> "It's my belief that further funding will absolutely be required for this, because £57 million is, basically, the start-off cost to start this particular project, which could be—well, it will be huge and significant over time."[41]

**63.** Nododd y Gweinidog, er ei bod yn ansicr, y gallai Llywodraeth Cymru o bosibl gael adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth y DU o ganlyniad i benderfyniadau cyllido cysylltiedig yn Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU.[42]

## Awdurdodau lleol

**64.** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi nodi bod awdurdodau lleol yn wynebu £33 miliwn y mis mewn costau ychwanegol o ganlyniad i golli incwm a chynnydd mewn galw oherwydd argyfwng y coronafeirws.

**65.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, amlinellodd CLlLC fod awdurdodau lleol yn wynebu £173 miliwn o ddiffyg.[43]

**66.** Yn y Nodyn Esboniadol, nodir bod £188.5 miliwn ar gael drwy'r Gronfa Galedi Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn cynnwys £78 miliwn i gefnogi llywodraeth leol ar gyfer colli incwm o ganlyniad i COVID-19[44]. Dywedodd y Gweinidog y canlynol am y cyllid hwn:

> "[It] was determined through discussion with local authorities in terms of them demonstrating the income they would lose but then netting off what they think that they might be able to make up later in the

[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 109
[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 118
[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 119
[43] Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 73
[44] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2020-21, Nodyn Esboniadol, Mai 2020

> year. And that funding will be drawn down from the pot, so it's not an allocation that we hand out to local authorities; local authorities draw it down when they're able to demonstrate the income lost."[45]

**67.** Wrth gael ei holi ar sut y byddai cyllid yn cael ei ddyrannu i'r cymunedau y mae pandemig COVID-19 yn effeithio arnynt fwyaf, esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod y cyllid yn seiliedig ar yr angen.[46]

**68.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dwyn taliadau setliad mis Mai a mis Mehefin i awdurdodau lleol ymlaen i gefnogi llif arian parod,[47] sef £526 miliwn o flaenswm. Nododd y Gweinidog fod y cyllid setliad naw mis sy'n weddill wedi cael proffil newydd dros weddill y flwyddyn.[48]

**69.** Nododd y Gweinidog y bydd llywodraeth leol yn bartneriaid pwysig wrth adfer o COVID-19 – yn enwedig gan fod llywodraeth leol yn gallu benthyca mewn ffordd nad yw'n bosibl i Lywodraeth Cymru.[49]

## Economi a busnes

**70.** Dyfynnir tystiolaeth yn y Nodyn Esboniadol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Banc Lloegr y bydd y pandemig yn arwain at ostyngiad sydyn mewn gweithgarwch economaidd "i raddau nas gwelwyd cyn cof". Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

> "Mae pob rhan o economi Cymru yn gweld effaith y pandemig. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod un rhan o bump o fusnesau wedi cau dros dro erbyn dechrau mis Mai. Mae arolwg sydyn a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod 66% o fusnesau Cymru wedi gweld gostyngiad yn eu trosiant. Dyma'r gyfran uchaf o holl wledydd y DU. Mae 80% o fusnesau Cymru hefyd wedi gwneud cais i Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU."[50]

**71.** Yn y Nodyn Esboniadol, nodir bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio £1.7 biliwn (gan gynnwys cyfalaf £100m) o fesurau i gefnogi'r economi, sy'n cyfateb i 2.7 y cant o Werth Ychwanegol Gros (GYG) Cymru yn 2019-20. Mae hyn yn cynnwys:

[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 124
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 126
[47] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2020, paragraff 288
[48] Y Pwyllgor Cyllid, 4 Mehefin 2020, paragraff 13
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 154
[50] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2020-21, Nodyn Esboniadol, Mai 2020

- Y Gronfa Cadernid Economaidd (CCE) gwerth £500 miliwn
- Mwy na £1 biliwn (wedi'i ddosbarthu gan lywodraeth leol) mewn rhyddhad ardrethi annomestig a grantiau i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch.

**72.** Gwnaeth y Gweinidog sylw ar waith roedd Llywodraeth Cymru eisoes yn ei wneud mewn meysydd penodol, gan nodi'r canlynol:

> "So, this, I think, makes it even more incumbent on us to accelerate the work that we were doing in terms of the foundational economy and in terms of refocusing our work in terms of town centres—so, the town centre first policy, for example, in terms of where we site Welsh Government and other public sector services in future to increase the footfall and so on."[51]

**73.** Wrth sôn am yr CCE, nododd y Gweinidog y canlynol:

> "…in terms of the economic resilience fund, there were two parts to it. There was the £100 million Development Bank of Wales loan funding and then also the £400 million grant funding. So, the loan funding has already approved over 1,300 loans, totalling over £100 million, and that's been able to safeguard 15,000 jobs, which is really, really positive, and bearing in mind there's nothing—this is over and above what has been provided by the UK Government. But then in terms of the grant element of the economic resilience fund, it saw over 9,500 claims submitted in just over a week…"[52]

**74.** Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer y cylch cyllido nesaf:

> "… we've had some discussions this morning between myself, Ken Skates and the Counsel General, talking about exactly that, in terms of where we focus the current funding or the next round of funding, and then how we make sure that the decisions we take now don't mean that our choices are limited later, in the sense of creating the recovery that focuses on particular sectors that are at particular risk and which will find things more difficult for longer. But then also that green recovery, which we've spoken about as well."[53]

[51] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 126
[52] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 109
[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 41

**75.** Dywedodd y Gweinidog fod gwerthusiad ffurfiol o gam cyntaf yr CCE yn cael ei gynnal.[54]

**76.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnig rhyddhad ardrethi busnes i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol dan £500,000. Ym mis Mai 2020, holodd y Pwyllgor y Gweinidog am y meini prawf cymhwysedd. Esboniodd y Gweinidog y canlynol:

> "… there will be some supermarkets that are under the £0.5 million mark that are doing very well indeed, but the point is we were responding in a crisis situation and needing to work very quickly to put in place a package of support for business. On the whole, the tourism sector, hospitality sector, retail sector have been hit very badly, but there are several businesses that are doing very well indeed as a result of being able to continue to operate."[55]

**77.** Esboniodd y Gweinidog mai'r rheswm dros y system yw bod Llywodraeth Cymru am wneud rhywbeth yn gyflym iawn i gefnogi nifer fawr o fusnesau ond, yn anochel, y bydd anawsterau pan fydd rhywbeth mor ddi-flewyn-ar-dafod.[56]

## Llifogydd

**78.** Wrth graffu ar Ail Gyllideb Atodol 2019-20, trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'r llifogydd a gafwyd ar draws Cymru ddechrau 2020 a daeth i'r casgliad a ganlyn:

> "Er bod y Gyllideb Atodol yn cynnwys trosglwyddiadau allan o Risg Llifogydd a Rheoli Dŵr, mae'r Pwyllgor yn nodi bwriadau'r Gweinidog i ddarparu cynllun rhyddhad mewn argyfwng i gynorthwyo'r rhai yr effeithiwyd arnyn nhw gan y llifogydd ddechrau 2020. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y camau a gymerodd y Gweinidog o ran darparu cymorth ariannol, a byddai'n cefnogi'r angen am ddefnyddio pwerau adran 128."[57]

**79.** Gofynnodd y Pwyllgor a oedd unrhyw ailflaenoriaethu yn sgil COVID-19 wedi effeithio ar ddyraniadau ar gyfer llifogydd. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> "Flooding allocations, I definitely see as life-and-limb allocations, but alongside that, of course, we have the ongoing discussions with the

[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 143
[55] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 104
[56] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Mai 2020, paragraff 105
[57] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2019-2020, Chwefror 2020

Treasury regarding the floods that we had earlier on this year. So, we're finally coming to a figure now with local authorities and a profile over a number of years in terms of the additional funding that will be required from Treasury because they've previously given that commitment to providing that funding. So, as I say, we're almost at the stage now where we have nailed down exactly what the quantum is and the period of time over which it's needed, and I will be addressing this again with the Chief Secretary shortly to hold them to that promise."[58]

## Safbwynt y Pwyllgor

**80.** Mae'r Pwyllgor yn deall pa mor gyflym y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb wrth ddyrannu cyllid ychwanegol i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, byddai'n croesawu rhagor o wybodaeth am y newidiadau mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG, yn enwedig y dyraniadau i fyrddau iechyd lleol.

**81.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r sefyllfa gyda COVID-19 wedi'i datrys ac nad yw'r galw ar y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol yn hysbys. Dangosodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn trafod yn rheolaidd â byrddau iechyd lleol drwy ei dulliau monitro ac adrodd sefydledig. Mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn a'r cadarnhad bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol mewn perthynas â gwaith cynllunio senarios ar gyfer yr ystod o gostau ychwanegol posibl.

**82.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sgyrsiau sy'n cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff llywodraeth leol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod llywodraeth leol wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod polisïau a strategaethau penodol yn cael eu gweithredu.

**83.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn disgwyl i Lywodraeth Leol fod yn bartneriaid pwysig yn adferiad COVID-19 gan y cânt fenthyca mewn ffordd nad yw'n bosibl i Lywodraeth Cymru. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd cyrff llywodraeth leol yn defnyddio eu pwerau benthyca a'u cronfeydd wrth gefn. Yn benodol, sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn wrth ddyrannu cyllid i awdurdodau lleol yn y dyfodol.

**84.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dull y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddilyn i ddarparu cymorth i fusnesau, yn enwedig o ran ardrethi busnes, a'r cydbwysedd y

[58] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 82

mae wedi ceisio ei daro rhwng darparu cymorth yn gyflym ac i nifer fawr o fusnesau.

**85.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r camau sydd wedi'u cymryd i gefnogi'r economi hyd yn hyn yn ystod y pandemig, ond mae'n credu y bydd yn hanfodol darparu cymorth ychwanegol fel rhan o adferiad COVID-19 a byddai'n annog Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau y darperir cymorth digonol.

**86.** Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb clywed bod gwerthusiad ffurfiol o gam cyntaf yr CCE yn yr arfaeth, er nad oedd wedi cyflwyno adroddiad eto. Bydd y Pwyllgor yn awyddus i weld canlyniadau'r adolygiad hwn a sut y caiff ei ddefnyddio i lywio strategaethau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn y dyfodol.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am y costau ychwanegol gwirioneddol a rhagamcanol ar gyfer byrddau iechyd lleol o ganlyniad i fesurau COVID-19 a'r dyraniadau i'w gwneud iddynt o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyllid a adlewyrchir yn y Gyllideb Atodol.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ar ôl i'r amcangyfrifon gael eu llunio, yn rhoi gwybodaeth am gostau datgomisiynu'r holl ysbytai maes.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi gwybodaeth ychwanegol am y cymorth i Strategaeth 'Profi Olrhain Diogelu' Llywodraeth Cymru ac yn argymell y rhoddir gwybodaeth ychwanegol o ran y strategaeth. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr hyn y bydd y cyllid yn ei gyflawni a'r dangosyddion perfformiad allweddol y bydd effeithiolrwydd gwariant cysylltiedig yn cael ei fesur yn eu herbyn, o ran y cyfalaf i sefydlu'r rhaglen a'i chostau cynnal dros y misoedd nesaf.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflymu gwaith i gefnogi economïau lleol. Bydd newidiadau mewn arferion manwerthu yn effeithio ar ganol trefi yn y tymor hwy, ac mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei ailffocysu o ystyried yr amgylchiadau presennol.

**Argymhelliad 14.** Pan fydd trafodaethau â llywodraeth leol a Thrysorlys EM wedi dod i ben, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi dadansoddiad llawn i'r Pwyllgor o'r cyllid ychwanegol ar gyfer llifogydd a sut y mae'n bwriadu dyrannu'r cyllid hwnnw.

# 6. Argyfwng hinsawdd

**87.** Ar 29 Ebrill 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig 'argyfwng hinsawdd' yng Nghymru.[59]

**88.** Un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru wrth osod cyllideb 2020-21 oedd newid hinsawdd a pholisïau i geisio mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Yn naratif Cyllideb ddrafft 2020-21, nodir bod Llywodraeth Cymru yn darparu "pecyn newydd o fwy na £140m o arian cyfalaf i gefnogi ein huchelgais i ddatgarboneiddio a diogelu ein hamgylchedd rhyfeddol".[60]

**89.** Mae'r Gyllideb Atodol hon yn nodi bwriadau Llywodraeth Cymru i gofnodi'r effeithiau amgylcheddol cadarnhaol sy'n deillio o'r pandemig, gan gynnwys:

> "…ffyrdd o deithio ac o weithio sy'n fwy cynaliadwy, hyblygrwydd wrth ddefnyddio TGCh mewn busnesau, gwasanaethau ac addysg, a mwy o bwyslais ar weithredu gwirfoddol a chymunedol a'r effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth ac ar ansawdd aer."[61]

**90.** Er bod rhywfaint o gyllid ar gyfer gweithgarwch hinsawdd ac amgylcheddol wedi'i ailflaenoriaethu, mae'r Gyllideb Atodol yn nodi bod nifer o'r gostyngiadau ym mhortffolio'r Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn ymwneud â chostau digwyddiadau nad ydynt yn cael eu cynnal mwyach neu lle y gellid rheoli gweithgarwch gyda llai o gyllid ac na "fwriedir i'r gostyngiadau hyn felly effeithio ar gyflawni ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd".[62]

**91.** Ailadroddodd y Gweinidog ymrwymiad Llywodraeth Cymru i newid hinsawdd:

> "The First Minister's been quite clear that his work that he particularly is passionate about on decarbonisation and biodiversity are very much priorities … clearly the climate change agenda is absolutely critical, as are the opportunities, I think, that we have for that green recovery, and I know this is something that Jeremy Miles is really putting some strong focus on in his round-table discussions and the work that he's doing in terms of exploring opportunities for the kind of recovery that we want."[63]

---

[59] Datganiad ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod yn argyfwng hinsawdd
[60] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2020-21, 16 Rhagfyr 2019
[61] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2020-21, Nodyn Esboniadol, Mai 2020
[62] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2020-21, Nodyn Esboniadol, Mai 2020
[63] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 79

**92.** Er bod y llinellau gwariant teithio llesol yn aros yn gyson yn y Gyllideb Atodol, ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi gwahodd awdurdodau lleol "i fynegi diddordeb mewn cyflwyno camau dros dro i wella diogelwch ac amodau wrth i bobl deithio mewn ffyrdd cynaliadwy a llesol yn eu hardaloedd"[64]. Esboniodd y Gweinidog fod yr holl awdurdodau lleol wedi mynegi diddordeb, gyda thros 200 o gynigion wedi'u cyflwyno, ond mai'r disgwyl yw y byddai'r rheini'n cael eu hariannu o'r cyllidebau cyfalaf trafnidiaeth presennol.[65]

## Safbwynt y Pwyllgor

**93.** Mae'r Pwyllgor yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i liniaru newid hinsawdd. Clywodd y Pwyllgor gan y Gweinidog fod angen i'r adferiad economaidd o COVID-19 fod yn gynaliadwy, gyda ffocws ar adferiad gwyrdd, a sicrhau y bydd polisïau a phrosiectau newid hinsawdd yn cadw blaenoriaeth uchel wrth ailflaenoriaethu prosiectau arian cyfalaf.

**94.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y pandemig presennol yn rhoi cyfle i newid y ffordd y mae pobl yn teithio ac yn croesawu ymgysylltiad Llywodraeth Cymru ag awdurdodau lleol i weithredu newidiadau. Fodd bynnag, er mwyn dangos ymrwymiad gwirioneddol i ymgorffori newidiadau cadarnhaol a chefnogi newid moddol o ddefnyddio ceir, mae'r Pwyllgor o'r farn y gall fod angen darparu cyllid ychwanegol i gefnogi awdurdodau lleol a darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut y mae cyllid yn cael ei ailflaenoriaethu i ganolbwyntio ar adferiad gwyrdd o COVID-19.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth am faint o arian ychwanegol a gaiff ei roi a sut y bydd yn cael ei ddyrannu i gefnogi awdurdodau lleol wrth ymgorffori newidiadau trafnidiaeth cadarnhaol.

[64] Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid ar gyfer cyflwyno mesurau trafnidiaeth leol gynaliadwy mewn ymateb i Covid-19
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 87

# 7. Cyfnod pontio'r UE

**95.** Gofynnodd y Pwyllgor sut y mae'r Gyllideb Atodol yn darparu hyblygrwydd i gefnogi busnesau wrth i gyfnod pontio'r UE ddod i ben. Cydnabu'r Gweinidog yr heriau economaidd posibl cyn diwedd y cyfnod pontio, a nododd fod gan Lywodraeth Cymru gyllid wrth gefn yn ystod y flwyddyn wedi'i ddal yn ôl nes y ceir rhagor o eglurder.[66]

## Safbwynt y Pwyllgor

**96.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod ymateb i COVID-19 wedi golygu bod angen ymateb brys a sylweddol ac mae'n nodi bod y Gweinidog wedi cyfeirio at gyllid wrth gefn sy'n cael ei ddal i ymateb pan ddaw cyfnod pontio'r UE i ben.

**97.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cryn ansicrwydd sylweddol ynghylch y sefyllfa ar ôl diwedd cyfnod pontio'r UE, felly bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gynllunio ar gyfer nifer o senarios posibl. Cred y Pwyllgor fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy penodol o ran pa senarios y mae'n cynllunio ar eu cyfer a pha anghenion cyllid sy'n gysylltiedig â'r senarios hyn. Mae gan Lywodraeth y DU rôl bwysig i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**98.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod pandemig COVID-19 yn cyfyngu'n ddifrifol ar staff Llywodraeth Cymru a'r adnoddau ariannol sydd ar gael i baratoi at ddiwedd cyfnod pontio'r UE, a'i gallu i gefnogi'r sector amaethyddiaeth, busnesau a dinasyddion gyda'r newidiadau posibl.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn fwy penodol o ran senarios cynllunio sy'n cael eu hystyried ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r UE a'r cyllid cysylltiedig sydd ei angen.

[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 157

# 8. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol

**99.** Mae cynnig y Gyllideb Atodol yn cynnig amrywiad i gyllidebau dau gorff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau hyn yn ei gyfarfod ar 21 Mai 2020.

**100.** Mabwysiadodd cyllidebau 2020-21 ar gyfer Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) Safon Gyfrifyddu newydd, Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (SAAR) 16, ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Yn ôl SAAR 16, mae'n ofynnol rhoi cyfrif am yr holl brydlesi'n gyson ac mae'n gymwys i gyrff sector cyhoeddus y mae'n ofynnol iddynt baratoi eu cyfrifon wrth gydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (y LlAA fel y'i gelwir yn gyffredin).[67]

**101.** Gan y disgwylir y bydd SAAR 16 yn dod i rym ym mis Ebrill 2020, roedd cyllidebau 2020-21 ar gyfer Comisiwn y Senedd ac OGCC yn cynnwys dau gynnig cyllidebol, gydag effeithiau SAAR 16 a hebddynt. Fodd bynnag, roedd y cyllidebau y cytunwyd arnynt ar gyfer y ddau sefydliad, fel y'u cynhwysir yng nghyllideb derfynol 2020-21, yn cynnwys effeithiau SAAR 16.

**102.** O ganlyniad i benderfyniad Trysorlys y DU i ohirio gweithredu SAAR 16 tan fis Ebrill 2021, mae Comisiwn y Senedd ac OGCC wedi cyflwyno cyllidebau atodol i wrthbwyso effaith addasiadau SAAR 16 ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

## Comisiwn y Senedd

**103.** Mae cyllideb atodol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2020-21 yn ceisio lleihau ei gyllideb adnoddau £1.836 miliwn. Mae'r ffigur cyllideb diwygiedig yr un peth â'r ffigur yn y golofn 'cyn SAAR 16' a nodir yng nghyllideb Comisiwn y Senedd 2020-21.

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**104.** Mae cyllideb atodol OGCC ar gyfer 2020-21 yn lleihau ei gyllideb adnoddau £16,000, gan ddychwelyd i'r ffigur 'cyn cyfrifyddu SAAR 16' a gynhwysir yn Amcangyfrif drafft OGCC 2020-21.

[67] Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth: 2020-21 (Saesneg yn unig)

## Safbwynt y Pwyllgor

**105.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r addasiadau cyfrifyddu y gofynnwyd amdanynt yng ngheisiadau cyllideb atodol Comisiwn y Senedd ac OGCC, yn dilyn penderfyniad Trysorlys y DU i ohirio gweithredu SAAR 16 tan 1 Ebrill 2021.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad i'r cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.